# CYFAILL ANWYLAF DYN!

Dechreuodd y broses o ddofi anifeiliaid filoedd o flynyddoedd yn ôl, ond erbyn hyn maen nhw'n sicr yn rhan o'r teulu. Ci yw'r anifail anwes mwyaf poblogaidd yng Nghymru heddiw.

Mae Casgliad John Dillwyn Llewelyn yn Amgueddfa Cymru yn cynnwys rhai o'r lluniau cynharaf a dynnwyd yng Nghymru erioed.



*Willie Llewelyn yn eistedd ar risiau cyntêdd Ty Penlle'r-gaer gyda'i gi Mustard, wedi ei dynnu gan ei daid John Dillwyn Llewelyn, tua 1853.*



*'Corrin', Llamgi, Pencampwr Cymreig. Paentiad olew, Bonnor, Rose Dempster (1875-1967)*

**Corrin**

Mae'r Llamgi Cymreig yn enwog am fod yn frîd ffyddlon, cyfeillgar a chariadus.

Roedd Corrin yn bencampwr sioeau yng Nghymru, a'r brîd cyntaf i gael tynnu ei lun. Roedd ei berchennog, Mr A. T. Williams o Gastell-nedd, yn angerddol am warchod y brîd.

Disgrifiodd Corrin fel "gweithiwr arbennig, cyfaill ymroddedig, gyda'r tymer gorau... dwi erioed wedi berchen ar sbaniel harddach nac erioed wedi gweld cystal gweithiwr."

# CYSUR MEWN CASGLU

#CYSURMEWNCASGLU

*Oedd ci gyda chi fel anifail anwes?*

*Beth oedd ei enw?*

*Beth ydych chi'n cofio amdano?*



## Oeddech chi'n gwybod?

Roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio cŵn ar gyfer iacháu yn ogystal â chyfeillgarwch. Canfuwyd sawl ci fel yr enghraifftt hun o Ben-y-cae, oedd mwy na thebyg yn gysylltiedig â iacháu, yn y deml Rufeinig ym Mharc Lydney.



*Ffermwyr a'u cŵn yn gwylio treialon cŵn defaid yng Ngwernogle, Sir Gaerfyrddin.*
*© David Hurn/Magnum Photos/Amgueddfa Cymru*

***Cwestiwn:***

***Pa frîd o gi y mae'r frenhines wedi ei ffafrio ers plentyndod?***

***Y Corgi.***

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae'r Frenhines wedi bod yn berchen ar fwy nag 20 Corgi Cymreig Penfro ers iddi gael ei gorseddu ym 1952.

Brîd o gi o'r enw'r Saluki yw brîd hynaf y byd. Mae'n dyddio'n ôl i 329 CC.

Mae'r ci defaid Cymreig yn frîd gweithgar a deallus, ac mae'n enwog am ei allu i gorlannu defaid. Mae'n frîd gwahanol i gi defaid y goror, sy'n fwy cyffredin.

AMGUEDDFA CYMRU

# CYSUR MEWN CASGLU

#CYSURMEWNCASGLU

*Ffaith:*

*Yn y ffilm The Secret Life of Pets 2 o 2019, ci defaid Cymreig yw cymeriad Rooster, wedi ei leisio gan Harrison Ford.*



*Paentiad o gi defaid Cymreig, Syr Kyffin Williams.*
*Llyfrgell Genedlaethol Cymru*

*Gweithgareddau Posib*

*Beth am sesiwn ganu ar y cyd i 'Dau Gi Bach', cân hwyliog sydd wedi bod yn boblogaidd ers cenedlaethau!*

*Ewch drwy'r wyddor a gweld faint o fridiau cŵn allwch chi restru o dan bob llythyren, e.e. (daeargi) Airedale, (ci) Affgan...ac ati*